| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Ivan Butler, Pennaeth Archwilio Mewnol** |

**Teitl: Dilyniant Archwilio Mewnol – Ysgol y Bendigaid Edward Jones**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am waith dilynol Archwilio Mewnol yn Ysgol y Bendigaid Edward Jones yn dilyn ei adroddiad cychwynnol ym mis Hydref 2013.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i adroddiad dilynol Archwiliad Mewnol ar gyfer Ysgol y Bendigaid Edward Jones gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i roi sicrwydd bod gwelliannau wedi'u gwneud yn yr Ysgol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Y Pwyllgor i ystyried a rhoi sylwadau ar adroddiad dilynol Archwilio Mewnol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Cyhoeddodd Archwilio Mewnol adroddiad ar Ysgol y Bendigaid Edward Jones ym mis Hydref 2013, er gwaethaf rhoi sgôr sicrwydd 'canolig', roedd yn cynnwys cynllun gweithredu gyda 13 o feysydd ar gyfer gwella. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn arbennig o bryderus y dylai'r Ysgol fynd i'r afael â'i bwysau ariannol a gofynnwyd i'r adroddiad dilynol Archwiliad Mewnol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor.

Mae adroddiad dilynol Archwiliad Mewnol (ynghlwm) yn dangos bod yr Ysgol wedi gwneud gwelliannau sylweddol ers yr adroddiad archwilio gwreiddiol. Mae llawer o'r materion a godwyd bellach wedi derbyn sylw, er bod rhai terfynau amser wedi'u methu. Fodd bynnag, nid yw'r Ysgol wedi datblygu ei chynllun adfer ariannol yn llwyr eto. Mae wedi cynhyrchu rhagamcanion tair blynedd ac wedi gweithio i leihau'r diffyg a ragwelir, ond bydd yn dal i fod â diffyg ym Mawrth 2015. Mae gan y Cyngor weithdrefnau cadarn ar waith i reoli sefyllfaoedd o'r fath ac mae'r Ysgol wedi gofyn am ganiatâd i gael diffyg trwyddedig ac yna bydd yn datblygu cynllun adfer ariannol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed EqIA wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad neu gynnig ar gyfer newid ar gyfer yr adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Ddim yn berthnasol - adroddiad er gwybodaeth yn unig.